YSGOL PENRHYN-COCH

Erbyn hyn cynyddodd rhif y disgyblion i 86 ac estynnwn groeso i nifer o blant sydd wedi ymuno â ni yn ystod y misoedd diwethaf ac sydd bellach yn gartrefol ddigon yn ein plith.

Croesawn Miss Catrin Morris o Goleg y Brifysgol Aberystwyth atom i dreulio tymor o ymarfer dysgu. Dymunwn bob llwyddiant iddi yn ystod ei chyfnod yma yn ogystal ag i'r dyfodol.

Er gwaethaf y tywydd garw diweddar mae'r bechgyn wedi chwarae rhai gemau pêl-droed ac wedi llwyddo i ennill bob gêm hyd yn hyn ond gêm gyfartal oedd hi yn erbyn ysgol y Borth ddiwedd Chwefror. Eisoes dechreuodd cyfnod y gemau hoci ac mae'r merched yn edrych ymlaen yn eiddgar i'r chwarae.

Cymerodd nifer o'r plant ran yng Ngala Nofio Ysgolion Cylch Aberystwyth yn ddiweddar gan wneud gwaith canmoladwy iawn.